

Public Document Pack

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Bridgend County Borough Council



Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont, CF31 4WB / Civic Offices, Angel Street, Bridgend, CF31 4WB

*Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg.
Rhowch wybod i ni os mai Cymraeg yw eich
dewis iaith.*

*We welcome correspondence in Welsh. Please
let us know if your language choice is Welsh.*



Annwyl Cyngorydd,

Cyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr / Chief Executive's Directorate

Deialu uniongyrchol / Direct line /: 01656 643148 / 643147 / 643694

Gofynnwch am / Ask for:

Ein cyf / Our ref:

Eich cyf / Your ref:

Dyddiad/Date: Dydd Mercher, 31 Mawrth 2021

PWYLLGOR Y CABINET DROS FATERION RHIENI CORFFORAETHOL

Cynhelir Cyfarfod Pwyllgor Y Cabinet Dros Faterion Rhieni Corfforaethol o bell trwy Microsoft Teams ar **Dydd Iau, 8 Ebrill 2021 am 14:00.**

AGENDA

1. Ymddiheuriadau am absenoldeb
Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb gan Aelodau.
2. Datganiadau o fuddiant
Derbyn datganiadau o ddiddordeb personol a rhagfarnol (os o gwbl) gan Aelodau / Swyddogion yn unol â darpariaethau'r Cod Ymddygiad Aelodau a fabwysiadwyd gan y Cyngor o 1 Medi 2008.
3. Cymeradwyaeth Cofnodion 3 - 10
I dderbyn am gymeradwyaeth y Cofnodion cyfarfod y 04 02 21
4. Diweddariad ar sefydlu Fframwaith Maethu Cenedlaethol a Gwaith cyfredol mewn perthynas â darpariaeth gofal Maeth Mewnol 11 - 20
5. Plant sy'n Derbyn Gofal Mewn Addysg 21 - 26
6. Materion Brys
I ystyried unrhyw eitemau o fusnes y, oherwydd amgylchiadau arbennig y cadeirydd o'r farn y dylid eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol â Rhan 4 (pharagraff 4) o'r Rheolau Trefn y Cyngor yn y Cyfansoddiad.

Nodyn: Sylwch: Yn sgil yr angen i gadw pellter cymdeithasol, ni fydd y cyfarfod hwn yn cael ei gynnal yn ei leoliad arferol. Yn hytrach, bydd hwn yn gyfarfod rhithwir a bydd Aelodau a Swyddogion yn mynychu o bell. Bydd y cyfarfod yn cael ei recordio i'w ddarlledu ar wefan y Cyngor cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl y cyfarfod. Os oes gennych unrhyw gwestiwn am hyn, cysylltwch â cabinet_committee@bridgend.gov.uk neu ffoniwch 01656 643147 / 643148.

Ffôn/Tel: 01656 643643

Facs/Fax: 01656 668126

Ebost/Email: talktous@bridgend.gov.uk

Negeseuon SMS/ SMS Messaging: 07581 157014

[Twitter@bridgendCBC](https://twitter.com/bridgendCBC)

Gwefan/Website: www.bridgend.gov.uk

Cyfnwidiad testun: Rhowch 18001 o flaen unrhyw un o'n rhifau ffon ar gyfer y gwasanaeth trosglwyddo testun

Text relay: Put 18001 before any of our phone numbers for the text relay service

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg. Rhowch wybod i ni os yw eich dewis iaith yw'r Gymraeg

We welcome correspondence in Welsh. Please let us know if your language choice is Welsh

Yn ddiffuant

K Watson

Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddio

Dosbarthiad:

Cynghowrwyr

NA Burnett

N Clarke

HJ David

J Gebbie

T Giffard

Cynghorwyr

CA Green

RM James

D Patel

RL Penhale-Thomas

JC Radcliffe

Cynghorwyr

CE Smith

DBF White

HM Williams

RE Young

COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR Y CABINET DROS FATERION RHIENI
CORFFORAETHOL A GYNHALIWDYD YN O BELL TRWY TIMAU MICROSOFT DYDD IAU, 4
CHWEFROR 2021, AM 14:00

Presennol

Y Cynghorydd NA Burnett – Cadeirydd

N Clarke
D Patel

HJ David
CE Smith

J Gebbie
HM Williams

CA Green
RE Young

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

T Giffard

Swyddogion:

Nicola Echanis	Pennaeth Addysg a Chymorth Cynnar
Mark Galvin	Uwch Swyddog Gwasanaethau Democraidd - Pwyllgorau
Lindsay Harvey	Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd
Laura Kinsey	Pennaeth Gofal Cymdeithasol Plant
Mark Lewis	Rheolwr Grŵp Gwaith Integredig a Chymorth i Deuluoedd
Claire Marchant	Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles
Michael Pitman	Swyddog Gwasanaethau Democraidd – Pwyllgorau
Mark Shephard	Prif Weithredwr
Elizabeth Walton- James	Rheolwr grŵp
David Wright	Rheolwr Gwasanaethau Cymorth i Deuluoedd
Raeanna Grainger	Rheolwr Gwasanaethau Adolygu Annibynnol

220. DATGANIADAU O FUDDIANT

Dim.

221. CYMERADWYAETH COFNODION

CYTUNWYD: Derbyniwyd fod Cofnodion 26 Tachwedd 2021 yn gofnod cywir.

222. DIWEDDARIAD CYNLLUN GWELLA CYFIAWNDER GWASANAETH IEUENCTID PEN-Y-BONT AR OGWR

Cyflwynwyd adroddiad gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chefnogaeth Deuluol, er mwyn diweddarau'r Pwyllgor Rhianta Corfforaethol ynglŷn â'r cynnydd wrth weithredu'r cynllun gwella Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Pen-y-bont a ddatblygwyd yn dilyn arolwg gan Arolygaeth Gwasanaeth Prawf Ei Mawrhydi (HMIP) o Wasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid ac Ymyrraeth Gynnar Western Bay ym mis Rhagfyr 2018.

Cadarnhaodd Rheolwr Grŵp Gweithio Integredig a Chefnogaeth Deuluol, fel cefndir, fod Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Pen-y-bont (Bridgend YJS) yn bartneriaeth amlasiantaethol statudol a chanddo gyfrifoldeb cyfreithiol i gydweithio er mwyn sicrhau gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid lleol addas. Ariannwyd y gwasanaeth gan amrywiaeth o ffynonellau yn cynnwys Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a phartneriaid statudol (h.y. Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont, Heddlu De Cymru, y Gwasanaeth Prawf a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg).

Cafodd Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid ac Ymyrraeth Gynnar Western Bay (WBYJEIS) ei arolygu'n llawn ar y cyd gan Arolygaeth Gwasanaeth Prawf Ei Mawrhydi (HMIP) yn ystod mis Rhagfyr 2018, a chyhoeddwyd y canfyddiadau ym mis Mawrth 2019. Daeth yr arolwg i'r casgliad fod Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid ac Ymyrraeth Gynnar Western Bay wedi derbyn graddfa derfynol o annigonol. Daeth Arolygaeth Gwasanaeth Prawf Ei Mawrhydi (HMIP) i'r casgliad fod naw o'r deuddeg maes arolygu wedi eu graddio fel bod yn annigonol, bod un yn ddigonol, a bod un yn arbennig.

Argymhellodd Rheolwr Grŵp Gweithio Integredig a Chefnogaeth Deuluol, ar 19 Ebrill 2019, y dylai'r Cabinet gytuno i ddadgyfuno'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid ac Ymyrraeth Gynnar Western Bay (WBYJEIS) ac y dylai'r drefn newydd fod ar gyfer Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid Pen-y-bont i eistedd o fewn portffolio un o'r rheolwyr grŵp presennol o fewn y Gyfarwyddiaeth Addysg a Chefnogaeth Deuluol.

Ychwanegodd fod y gwasanaeth yn dal i gael ei fonitro gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid (YJB) ac yn cael ei sgriwneiddio'n helaeth gan amrywiol ffynonellau yn cynnwys Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Serch hynny, yn sgil effaith COVID-19, nid yw'n hysbys ar hyn o bryd pryd fydd Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid Pen-y-bont yn cael ei arolygu o'r newydd.

Daeth y gwaith o ailstrwythuro Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid Pen-y-bont i ben ym mis 2019. Arweiniodd yr ailstrwythuro at y gwasanaeth yn dod yn rhan o hwb y Tîm Atal Amlasiantaeth Integredig Achosion Cymhleth (IMPACCT) gan weithio'n agos gyda'r timau gofal. Roedd y drefn newydd hon yn cynnig gwelliant o safbwynt cydweithio, rhannu sgiliau ac adnoddau gan leihau dyblygu gwaith i blant, pobl ifanc a theuluoedd. Roedd yr ad-drefnu hefyd wedi arwain at greu swyddi ymarferwyr arweiniol, a oedd yn cynnig y gwasanaeth gyda'r cyfle i ddarparu arolygiaeth gadarn, sicrwydd ansawdd gwaith a rheolaeth llinell ar gyfer staff. Dyma feysydd a gafodd eu tanlinellu gan yr arolygiad fel bod yn achos pryder. Recriwtiwyd ar gyfer y swyddi ymarferwyr arweiniol yn ystod mis Hydref 2019, gyda'r ddau ymarferwr arweiniol yn dechrau yn eu swyddi ym mis Ionawr 2020.

Aeth ymlaen i egluro'r gwaith sicrhau Ansawdd a oedd wedi dechrau o fewn y gwasanaeth. Roedd yr adborth a gafwyd wedi tanlinellu fod gwelliant wedi digwydd a safbwynt ansawdd yr asesiadau. Serch hynny, gwelwyd bod angen gwneud gwaith pellach o safbwynt mynd i'r afael â'r risg o niwed a diogelwch a lles. Mewn ymateb i hyn, comisiynwyd hyfforddiant annibynnol cydnabyddedig gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid (YJB) er mwyn cefnogi staff yn y maes hwn. Yn ogystal ag asesiadau, gwelwyd yr angen am ddatblygu cynlluniau amserol wedi eu harwain gan anghenion ac sy'n mynd i'r afael â'r materion a danlinellwyd o fewn asesiadau fel maes ar gyfer gwelliant. Mae datblygu ymyriadau a rhaglenni sy'n lleihau'r perygl o aildroseddu yn feysydd sy'n dal angen eu gwella o fewn y gwasanaeth, fel yr eglurwyd gan y Rheolwr Grŵp Gweithio Integredig a Chefnogaeth Deuluol.

Mae paragraffau nesaf yr adroddiad yn cadarnhau sut mae'r uchod yn cael eu cyflawni.

Cynhaliwyd hunanasesiad o Wasanaeth Cyfiawnder Ieuencid Pen-y-bont ym mis Ebrill 2020. Ychwanegwyd meysydd yr oedd angen eu gwella i'r Cynllun Gwella a atodir yn Atodiad 1. Pwysleisiodd fod gwaith yn dal i gael ei wneud yn rhai o'r meysydd. Ymysg y meysydd y cyfeiriwyd atynt o fewn yr adroddiad roedd gwelliannau parhaus ym maes asesu, cynlluniau cefnogi, ymyriadau, gweithio ar y cyd a gwerthuso ffurflenni adborth oddi wrth bobl ifanc.

Serch hynny, cadarnhaodd paragraff 4.6 o'r adroddiad sut yr oedd y pandemig Covid-19 wedi effeithio ar wireddu rhai o'r gwelliannau oedd wedi eu cynllunio i raddau, er bod ffyrdd i fynd i'r afael â'r broblem honno wedi eu gweithredu.

Yn Atodiad 2 o'r adroddiad, atodir adroddiad o'r fframwaith perfformiad a drafodir yng nghyfarfodydd misol Bwrdd Rheoli'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid. Cadeiriwyd y Bwrdd Rheoli ar y cyd gan Brif Weithredwr y Cyngor a'r Aelod Cabinet ar gyfer Cymunedau. Atodir cylch gorchwyl y Bwrdd Rheoli yn Atodiad 3, eglurodd Rheolwr Grŵp Gweithio Integredig a Chefnogaeth Deuluol.

Daeth y Rheolwr Grŵp Gweithio Integredig a Chefnogaeth Deuluol â'i gyflwyniad i ben drwy egluro fod rhywfaint o'r data a atodwyd i'r adroddiad wedi'i ddiweddarau'n ddiweddar ac roedd yn hapus i rannu hwnnw gyda'r Aelodau, yn ôl y gofyn.

Eglurodd y Cadeirydd ei bod wedi mynychu dau gyfarfod Bwrdd Rheoli'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, ac roedd yn falch o weld lefel ymgysylltiad y partneriaid ar y Bwrdd.

Eglurodd yr Aelod Cabinet – Addysg ac Adfywiad ei fod yn falch o'r duedd tuag at welliannau parhaus a wnaed ers i'r tîm Cefnogi Teuluoedd gymryd awenau'r gwasanaeth ers yr arolygiad a'i fod yn hyderus iawn y byddai gwelliannau'n cael eu gwneud eto i'r dyfodol.

Cyfeiriodd yr Aelod Cabinet – Lles a Chenedlaethau'r Dyfodol ei bod hithau hefyd wedi bod yn ymwneud ers cryn amser â Bwrdd Rheoli'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid gan ddod i'r casgliad ei fod yn mynd o nerth i nerth. Roedd yn hynod falch o'r modd yr oedd y Bwrdd yn gweithredu mewn ffyrdd blaengar, er mwyn goresgyn heriau'r pandemig, h.y. ymbellhau cymdeithasol a.y.b., gan olygu ei bod yn anodd ymwneud yn agos iawn a3 chleientiaid a phobl ifanc.

Cyfeiriodd y Dirprwy Arweinydd at argymhelliad 13 Arolygaeth Gwasanaeth Prawf Ei Mawrhydi (HMIP) yn ymwneud â lefelau sgiliau llythrennedd a rhifedd y bobl ifanc o fewn y system. Holodd sut oedd mynd i'r afael â hyn, ac os oedd yn cael ei gyflawni.

Eglurodd y Rheolwr Grŵp Gweithio Integredig a Chefnogaeth Deuluol fod llawer o blant a phobl ifanc yn gwneud yn dda, ond roedd eraill nad oedd yn llwyddo cystal. Cyflogwyd therapydd llefaredd ac iaith yn y gorffennol. Roedd mater arall hefyd wedi effeithio ar gynnydd, yn benodol fod rhai o oed ysgol statudol nad oedd, drwy eu haddysg, yn derbyn yr isafswm o 25 awr statudol o addysg yr wythnos. Roedd yr awdurdod lleol felly wedi herio'r ysgolion oedd yn rhoi addysg iddynt ynglŷn â hyn, er mwyn cynyddu eu horiau. Roedd rhai o'r bobl ifanc hefyd wedi bod yn ymwneud a3 throeddu a/neu ymddygiad heriol. Roedd materion fel y rhain hefyd wedi llesteirio eu cynnydd o safbwynt cyrraedd targedau addysgol craidd. Roedd Tîm Ymrwymiad Addysgol bellach wedi'i ffurfio, gan lenwi'r gofod yng nghyswllt yr uchod, felly roedd mwy o gynnydd yn cael ei wneud, a fyddai, gobeithio, yn parhau i'r dyfodol, ychwanegodd.

Holodd y Cadeirydd sut oedd y gwasanaeth yn sicrhau fod plant o fewn y system yn gallu cael gafael ar ddeunydd darllen addas, er mwyn eu hannog i wella eu sgiliau llythrennedd.

Eglurodd y Rheolwr Cymorth Gwasanaeth Teulu fod hyn yn rhywbeth yr oedd y gwasanaeth llyfrgell yn mynd i'r afael ag ef, a gallai'r Cadeirydd ddarparu manylion pellach y tu allan i'r cyfarfod.

Mewn ymateb i nifer o bwyntiau a godwyd gan yr Arweinydd, cynigiodd y Rheolwr Cymorth Gwasanaeth Teulu y sylwadau canlynol:

O safbwynt yr asiantaethau oedd yn rhan o Fwrdd rheoli'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid, cadarnhaodd eu bod yn cynnwys sylwadau gan asiantaethau statudol yn ogystal ag anstatudol. Roedd yn falch i allu ychwanegu fod cefnogaeth i'r cyfarfodydd yn gryf a bod llawer yn eu mynychu. Prin oedd y rhai oedd yn mynychu cyfarfodydd yn y gorffennol o safbwynt Gofalwyr Cymru a Charchar y Parc. Serch hynny, roedd mwy yn mynychu o'r asiantaethau yma bellach. O safbwynt cynnig cefnogaeth i ddiodefwyr troseddau yn ogystal â'r rhai sy'n cyflawni troseddau, dywedodd fod hyn mewn lle, ond cydnabu y gellid gwneud gwelliannau pellach o safbwynt y maes cefnogi hwn. O safbwynt lefelau capasiti o fewn y tîm i gefnogi'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid, roedd pethau'n anodd yn enwedig yng nghyswllt y ffaith fod y gwasanaeth wedi cymryd yr awenau yn sgil yr archwiliad beirniadol blaenorol (o safbwynt y gwasanaeth). Roedd Gweithiwr Cymdeithasol pellach wedi'i recriwtio er mwyn cryfhau'r tîm. Serch hynny, roedd effaith hyn wedi'i leihau i raddau, gan fod Gweithiwr Asiantaeth newydd adael y gwasanaeth. Felly, er bod gwasanaethau'n cael eu cyflawni, roedd lefelau gwaith yn heriol.

Gofynnodd yr Arweinydd am ddiweddariad pellach ar y gwasanaeth yng nghyfarfodydd y Pwyllgor i'r dyfodol, ar ffurf adroddiadau cynnydd, er mwyn rhoi'r sicrwydd i Aelodau fod y camau gweithredu y gofynnwyd amdanynt fel rhan o'r arolygiad diweddaraf wedi eu cwblhau.

Daeth y Prif Weithredwr â'r drafodaeth ar yr eitem hon i ben drwy gadarnhau fod rhai heriau a gwaith sylweddol i'w gyflawni eto i'r dyfodol, er gwaetha'r ffaith fod gwelliannau diamheuol o fewn y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid wedi eu cyflawni, cyn unrhyw ragarolwg a allai ddigwydd yn weddol fuan. Cydnabu, serch hynny, fod y gwaith yn mynd yn ei flaen.

CYTUNWYD: Y dylid nodi'r adroddiad a'r gwaith a wnaed hyd yn hyn o safbwynt Cynllun Gwella Gwasanaeth Cyfawnder Ieuencid Pen-y-bont.

223. ADRODDIAD Y GWASANAETH ADOLYGU ANNIBYNNOL (GAA)

Cyflwynwyd adroddiad gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles, er mwyn cyflwyno Adroddiad y Gwasanaeth Adolygu Annibynnol (IRO) i Aelodau'r Pwyllgor, yn unol â Chanllaw Adolygu Annibynnol Swyddogion (Cymru) 2004, yn ogystal â Chynllun Gweithredu Gwasanaeth yr IRO.

Eglurodd ei bod yn ofynnol dan y gyfraith i Awdurdodau Lleol benodi Swyddogion Adolygu Annibynnol gan Awdurdodau a bod eu prif swyddogaethau'n cael eu rheoli gan y ddeddfwriaeth a'r canllawiau canlynol:

- Deddf Fabwysiadu a Phlant 2002;
- Canllawiau Swyddogion Adolygu Annibynnol (Cymru) 2004.

Eglurwyd fod gan wasanaeth y Swyddog Adolygu Annibynnol (IRO) rôl awdurdodol wrth sicrhau ansawdd y cynllunio gofal a gyflawnir.

Roedd adroddiad y Gwasanaeth Adolygu Annibynnol (atodwyd yn Atodiad A yr adroddiad) yn ymwneud â gwaith gwasanaeth yr IRO o fis Ebrill 2019 tan fis Mawrth 2020.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth perfformiad o safbwynt yr angen statudol i adolygu'r Plant sy'n Derbyngofal, yn cynnwys plant a chanddynt gynlluniau Mabwysiadu a Phobl Ifanc â Gofal Gadael Plant sy'n Derbyngofal/Cynlluniau Pathway

(o dan 18) gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont. Roedd hefyd yn cynnwys gwybodaeth am blant â chanddynt gynllun amddiffyn plant ac adolygiadau o'r cynlluniau yma mewn Cynadleddau Achos Gofal Plant.

Manylodd yr adroddiad ymhellach ar wybodaeth yn ymwneud â gofynion rheolaethol yng nghyswllt dod i benderfyniad yn sgil anghydfod, baich achosion y Gwasanaeth Adolygu Annibynnol, cyfranogiad ac ymgynghoriadau pobl ifanc yn eu Hadolygiadau, sialensiau a chyflawniad yn ystod y cyfnod adrodd a blaenoriaethau'r gwasanaeth ar gyfer 2019-20.

Yn ogystal â'r canllawiau y cyfeirir atynt ym mharagraff 3.1 o'r adroddiad, cyflwynwyd canllawiau ac arferion safonol pellach gan y Gwasanaeth Adolygu Annibynnol ar ddechrau 2019. Roedd Swyddogion Adolygu Annibynnol wedi gweithio i wella'r system dracio a chynigiwyd arweiniad gan Swyddogion yn unol â'r Canllaw Safonau Ymarfer ac Arfer Dda, cadarnhaodd y Swyddog.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles, fod y Gwasanaeth Adolygu Annibynnol wedi cadeirio/adolygu 2,022 cyfarfod rhwng Ebrill 2019 a Mawrth 2020, fel y nodwyd yn yr adroddiad. Cafodd 1,506 o archwiliadau ansawdd eu cwblhau yng nghyswllt y cyfarfodydd yma hefyd.

Wrth ddod i gasgliad ynglŷn â'r adroddiad, eglurodd fod y Gwasanaeth Adolygu Annibynnol yn dal i weithio ar y cyd â'r timau diogelu i wella arferion yng nghyswllt cynadleddau diogelu plant gan fynd ymhellach i gynnwys asiantaethau megis y gwasanaethau Ymwelydd Iechyd, Nyrsys Ysgol a'r Gwasanaethau Bydwagedd. Y cam nesaf oedd gweithio at wella ansawdd adolygiadau Plant sy'n Derbyn Gofal ar lefel amlasiantaethol.

Wrth gloi, pwysleisiodd fod angen sicrhau fod y gwasanaeth yn parhau i wella o hyd ac o'r herwydd, byddai'r Gwasanaeth Adolygu Annibynnol yn anelu at barhau i gael effaith gynyddol o safbwynt gwella ansawdd y plant a'r bobl ifanc hynny oedd wedi cael profiad o'r gwasanaeth gofal. Mae Cynllun Gweithredu'r Gwasanaeth Adolygu Annibynnol yn cyfeirio at y meysydd sydd angen sylw er mwyn eu gwella o fewn y gwasanaeth yn ystod y 12 mis nesaf, ac y byddai'r rhain yn cael eu hadolygu'n gyson er mwyn sicrhau fod y camau gweithredu a awgrymwyd yn cael eu gweithredu.

Cafwyd cyflwyniad pwynt pŵer (yn ogystal â fideo byr) i gefnogi'r adroddiad gan reolwr Grŵp yr IAA a Rheolwr Diogelu/Adolygu Annibynnol, gyda chefnogaeth cydweithwyr yn y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Roedd y cyflwyniad yn ymdrin â nifer o themâu a meysydd gwaith allweddol, yn cynnwys yr enghreifftiau isod:

- Rôl a maes gwaith y Swyddogion Adolygu Annibynnol (IRO's)
- Poblogaeth amddiffyn plant yn ystod y 12 mis diwethaf, h.y. 185 ar gyfartaledd (189 ar hyn o bryd)
- Cyfartaledd misol lleoliadau Gofal Maeth yn ystod y 12 mis diwethaf = 383, gyda'r rhai rhwng 10 a 15 oed ymysg y ganran uchaf a'r rhai rhwng 0 ac 1 oed, ymysg yr isaf
- Rhai blaenoriaethau gofal a amlinellwyd yn y Cynllun Gweithredu:
 1. Mwy o gyswllt rhwng y Swyddogion Adolygu Annibynnol â phlant a phobl ifanc (i'r dyfodol);
 2. Sicrhau sefydlogrwydd a lleihau nifer y Plant sy'n Profi Gofal;
 3. Gwella ymgynghoriadau/cyfranogaeth plant;
 4. Gwella adolygiadau Plant sy'n Derbyn Gofal a'r prosesau cynllunio gofal;
 5. Datblygu themâu dysgu a gwella arferion drwy Sicrhau Ansawdd;

6. Datblygu gwasanaethau Eiriolaeth/cynnig byw i blant.

Holodd yr Aelod Cabinet – Lles a Chenedlaethau'r Dyfodol y Swyddogion os allent roi ychydig wybodaeth bellach yn ymwneud ag Ail-ddatganiadau, h.y. pam fod plant yn cael eu dadgofrestru oddi ar y Gofrestr Amddiffyn Pant, cyn cael eu hail-gofrestru wedyn, weithiau'n sydyn iawn.

Eglurodd Swyddogion fod hwn yn faes Cyngor oedd yn cael ei adolygu'n gyson. Os oedd digon o dystiolaeth ar gael er mwyn dod i benderfyniad ynglŷn â dadgofrestru plentyn, y prif reswm am roi enw nôl ar y gofrestr oedd bod rhieni'r plentyn wedi gwahanu ar y dechrau ond eu bod bellach nôl gyda'i gilydd. Yn ystod y cyfnod hwn, serch hynny, roedd y berthynas wedi dirywio unwaith eto, gyda'r plentyn yn cael ei roi nôl o fewn lleoliad gelyniaethus o bosib.

Yn sgil y fath sefyllfa, caiff y plentyn ei roi unwaith eto ar y Gofrestr Diogelu Plant er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu hamddiffyn i'r dyfodol.

Mewn achosion o'r fath, mae eu sefyllfa wedyn yn cael ei hadolygu a'i sgriwteiddio'n barhaus, gan gynnwys gweithio gyda rhieni a chefnogi diddordebau, iechyd a lles y plentyn.

Gan fod gwaith y Gwasanaeth Asesu Annibynnol yn weithred statudol, holodd yr Arweinydd sut oedd y gwasanaeth yn gweithio'n agos gyda phlant iau er mwyn clywed eu llais a pha effaith yr oedd y pandemig Covid wedi ei gael ar y gweithio agos yma ymysg pobl ifanc o bob oed. Teimlai fod mwy o gyfle, yn enwedig ar hyn o bryd, i glywed lleisiau plant o oed Meithrin/Cynradd o fewn lleoliad yr ysgol. Yn ystod Covid, teimlai fod yn rhaid i ni barhau i ddarparu cefnogaeth a gwasanaethau yn enwedig i'r mwyaf agored i niwed o fewn cymdeithas, mewn ffyrdd gwahanol i'r arfer, wrth geisio sicrhau cydbwysedd rhwng heriau megis risgiau a rôl o safbwynt lles yr unigolion yma i'r dyfodol.

Cydnabu fod Trais yn y Cartref yn broblem fawr ac yn rhywbeth a oedd wedi gwaethygu yn ystod y cyfnod clo. Er ei fod yn ymwybodol o beirianwaith i gefnogi dioddefwyr yn yr achos hwn, holodd os oedd rhywbeth wedi ei sefydlu i helpu'r rhai oedd yn cyflawni troseddau, am ei fod yn ymwybodol o'r Rhaglen Cyflawnwyr Trosedd (Perpetrator's Programme).

O safbwynt cadw cysylltiad â phlant hŷn a pharhau â'u gofal a chynllunio gofal ar eu cyfer, cadarnhaodd Swyddogion fod cyswllt cyson â'r grŵp oedran hwn o bobl ifanc yn parhau drwy gyfrwng llwyfannau rhithiol, yn ogystal â thrwy fentrau a chefnogaeth megis y Tîm 16 Plws. Felly, doedd y pandemig ddim wedi llesteirio'r grŵp yma o safbwynt monitro parhaus a chefnogaeth. Er bod modd cadw cysylltiad heblaw am drwy ddulliau rhithiol, roedd y sefyllfa'n dal yn heriol yn sgil ymbellhau cymdeithasol. Roedd gwasanaethau Eiriolaeth wedi eu sefydlu er mwyn cefnogi lles y bobl ifanc yma, eglurodd Rheolwr Grŵp y Gwasanaeth Asesu Annibynnol a Diogelu.

Cadarnhaodd y Rheolwr Adolygu Annibynnol fod sawl math o ddogfennau Ymgynghori yn cael eu defnyddio i gynnig cefnogaeth barhaus ac ymrwymo ag unigolion ifanc yn unol â'u hoedran. Gyda chynlluniau ar y gweill i ailagor ysgolion adeg hanner tymor, ar gyfer disgyblion iau i ddechrau, byddai rhyngweithio'n digwydd yn yr ysgolion er mwyn sicrhau parhad y gefnogaeth barhaus yn achos y plant mwyaf bregus a'r rhai mewn gofal maeth. Roedd cyfle hefyd drwy'r Cynlluniau Addysg Personol (PEP's) i gyfeirio hefyd at y gefnogaeth barhaus, ychwanegodd. Roedd hyn yn helpu ac i raddau'n goresgyn unrhyw ddiffyg yn nifer yr ymweliadau gan y Rheolwyr Adolygu Annibynnol mewn lleoliad un i un mwy personol.

Awgrymodd Swyddogion hefyd fod nifer o raglenni wedi eu creu i fynd i'r afael â thrais yn y cartref, drwy weithio gyda'r dioddefwr a'r un sy'n gyfrifol am y trais, yn cynnwys y Rhaglen Teuluoedd Ysbrydoledig (Inspiring Families Programme).

Nododd Aelod, ar sail y wybodaeth gefnogol yn yr adroddiad, ac o safbwynt ystyriaethau'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig i'r dyfodol, fod argymhelliad i leihau nifer y staff cefnogi swyddfa ar gyfer y Tîm Amddiffyn Plant. Holodd os oedd siawns y byddai hyn yn tynnu oddi ar y lefelau cefnogaeth gyfredol ar gyfer plant maeth, a.y.b.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles fod hyn yn rhywbeth a oedd dan ystyriaeth wrth symud ymlaen, ond bod cyfarfodydd Rheoli cyson yn cael eu cynnal o fewn y Gyfarwyddiaeth ar sail cylch parhaus, i gyfarfod â phob gwasanaeth wrth i'r heriau gynyddu o fewn y timau. Roedd hyn yn cynnwys y Rheolwyr Adolygu Annibynnol, yn enwedig er mwyn sicrhau fod cefnogaeth ddigonol ar gael o safbwynt eu gwaith yn cynnwys eu llwyth gwaith ar unrhyw adeg benodol.

Nododd y Cadeirydd fod esgeulustod yn ffactor gyffredin iawn ymysg Plant sy'n Derbyn Gofal. Holodd os oedd data ar gael i ddangos faint o blant oedd yn cael eu hesgeuluso a faint sy'n gallu hawlio prydau ysgol am ddim.

Eglurodd Swyddogion nad oedd y data hwn ganddynt wrth law, serch hynny, cadarnhaodd Pennaeth Gwasanaethau Plant y byddai'n trafod y mater gyda'r Gyfarwyddiaeth Blant ac yn darparu data i Aelodau maes o law, y tu allan i'r cyfarfod.

CYTUNWYD:

Fod y Pwyllgor yn nodi adroddiad y Gwasanaeth Adolygu Annibynnol, cynnwys y cyflwyniad pwynt pŵer a chynllun gweithredu'r Gwasanaeth Adolygu Annibynnol (atodir yn Atodiad A yr adroddiad).

224. MATERION BRYN

Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 16:30

This page is intentionally left blank

BRIDGEND COUNTY BOROUGH COUNCIL

REPORT TO CORPORATE PARENTING COMMITTEE

8 APRIL 2021

REPORT OF THE CORPORATE DIRECTOR, SOCIAL SERVICES AND WELLBEING

UPDATE ON THE ESTABLISHMENT OF A NATIONAL FOSTERING FRAMEWORK (NFF) AND CURRENT WORK IN RELATION TO IN HOUSE FOSTER CARE PROVISION

1. Purpose of report

1.1 The purpose of this report is to :

- provide the Corporate Parenting Committee with an update (further to the report presented on 18th April 2018) regarding the progress of work undertaken on establishing a National Fostering Framework in Wales.
- provide the Corporate Parenting Committee with updated information about Bridgend Foster Care service provision and the fostering service review and developments that are underway.

2. Connection to corporate well-being objectives / other corporate priorities

2.1 This report assists in the achievement of the following corporate well-being objective/objectives under the **Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015**:-

1. **Supporting a successful sustainable economy** – taking steps to make the county borough a great place to do business, for people to live, work, study and visit, and to ensure that our schools are focussed on raising the skills, qualifications and ambitions for all people in the county borough.
2. **Helping people and communities to be more healthy and resilient** - taking steps to reduce or prevent people from becoming vulnerable or dependent on the Council and its services. Supporting individuals and communities to build resilience, and enable them to develop solutions to have active, healthy and independent lives.
3. **Smarter use of resources** – ensure that all resources (financial, physical, ecological, human and technological) are used as effectively and efficiently as possible and support the creation of resources throughout the community that can help to deliver the Council's well-being objectives.

3. Background

National Fostering Framework

- 3.1 As stated previously for many years, key stakeholders have advocated for greater collaboration across all sectors, to address strategically the growing concerns about the overall effectiveness and sustainability of fostering services in Wales. The creation of a National Framework was seen as a means of ensuring that known concerns were addressed and introduced greater consistency without sacrificing the acknowledged strengths and diversity of local accountability within the existing system.
- 3.2 Phase One of the work (2015) saw the Minister for Health and Social Services endorse the proposed framework and provided funding from Welsh Government, and reflected both the scale of people's concerns and also the need to support effective change which could only be addressed at a strategic level.
- 3.3 Following a programme of engagement and consultation a Phase One report was produced and submitted to Welsh Government that set out recommendations for how the National Fostering Framework work should be taken forward. These were as follows:
- Develop a National Fostering Framework, including the allocation of functions at national, regional and local levels and begin putting in place the appropriate structures. (Year one).
 - Introduce a national performance and resource framework aligning this with the work to deliver the Welsh Community Care Information Service (WCCIS). A phased approach to implementation will be developed. A distinct performance framework to be developed for the independent sector (commercial and Third Sector providers). (Year one).
 - Introduce a national website, social media, brand identity for foster care in Wales, to underpin a marketing strategy for recruiting foster carers and improving communication. (Year one).
 - Ensure greater consistency in the use of Kinship Foster Care for Children who are looked after, building on the initial scoping paper in Phase One. (Year One).
 - Develop national arrangements for the commissioning of all placements regardless of sector, but building on the work of the 4Cs (Childrens Commissioning Consortium Cymru). (Year one).
 - Benchmark best practice in corporate parenting across Councils and other public services to improve outcomes for children and increase resilience for foster care placements. (Year one).
 - Establish the right balance between Local Authority foster care, third sector providers and commercial providers in terms of national policy objectives, service quality considerations and value for money requirements. (Year two).
 - Produce a national policy framework for fostering services, to include the training and support of foster carers. (Year two).
 - Establish an all-Wales public service fostering collaborative, delivering services regionally and locally, incorporating all the relevant services directly provided by Local Authorities. (Year three).

- Harmonise policies for paying fees and allowances to Local Authority foster carers (Year three).
- 3.4 To support the further development of the National Framework (Phase Two) a national strategic steering group was established and a further series of consultations took place across Wales about what a 'National Fostering Framework' and its components should look like and an implementation plan was developed for 2017–2020.
- 3.5 The work programme from phase 2 carried out during 2016-17 included:
- Work stream 1: Develop a National Fostering Framework including the allocation of functions at national, regional and local authority levels and begin putting into place the appropriate structures.
 - Work stream 2: Introduce a national performance framework aligning this with the work being done to deliver the WCCIS.
 - Work stream 3: Introduce a national website, social media, brand and identity for Local Authority foster care in Wales, to underpin a marketing strategy for recruiting foster carers and improving communication.
 - Work stream 4: Ensure greater consistency in the use of Kinship Foster care for children who are looked after.
